

476/63

**HANES – HI6**

**UNED 6 (Asesiad Synoptig)**

**ASTUDIAETH FANWL 1**

**CYMRU A GWLADWRIAETH Y TUDURIAID, tua 1534-1567**

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddodedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

**UNED 6****ASTUDIAETH FANWL 1****CYMRU A GWLADWRIAETH Y TUDURIAID, tua 1534-1567**

*Atebwch un cwestiwn.*

*Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.*

### **1. Newid gwleidyddol a gweinyddol a datblygiadau pellach, tua 1534-1567**

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

#### Ffynhonnell A

‘Trwy addasu'r wlad yn siroedd a darparu cyfreithiau melys a buddiol, y mae diwygio dedwydd ar lywodraeth Cymru yn amser Harri'r Wythfed yn gyfryw fel fy mod, wrth gymharu llywodraeth bresennol Cymru â llywodraeth gweddill y deyrnas hon, yn ein canfod ein hunain yn awr mewn cyflwr llawer gwell nag mewn unrhyw ran arall.’

[George Owen, ysgolhaig ac aelod o ddosbarth y boneddigion, yn ysgrifennu yn ei lyfr,  
*Dialogue of the Government of Wales* (1594)]

#### Ffynhonnell B

‘Erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg roedd llawer o foneddigion Cymru yn canmol llywodraeth y Tuduriaid yng Nghymru, gan gymharu cyflwr anhapus y wlad cyn yr uno â'i chyflwr sefydlog presennol. Eto, ymddangosai Cymru yn unrhyw beth ond hafan trefn dda, gyda gwîr ar gadw (*retainers*) y boneddigion a'r bendefigaeth, yn arbennig, yn fygythiad parhaol i heddwch.’

[Penry Williams, hanesydd academaidd yn arbenigo ar hanes gwleidyddol yr unfed ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu yn *Tudor Wales*, gwerslyfr a olygwyd gan T. Herbert a G. E. Jones (1988)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli newid gwleidyddol a gweinyddol a datblygiadau pellach yn y cyfnod 1534-1567? [80]

### CYDNABYDDIAETH

Atgynhyrchir Ffynhonnell B gyda chaniatâd caredig Gwasg Prifysgol Cymru.

## 2. Newid a datblygiadau economaidd, tua 1534-1567

*Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.*

### Ffynhonnell A

‘Deddfer bod y cwnstabliaid a’r wardeiniaid eglwys ym mhob plwyf oddi mewn i’r deyrnas hon yn flynyddol, yn wythnos y Pasg, yn galw ynghyd nifer o’r plwyfolion ac yna ethol dau berson gonest o’r plwyf am un flwyddyn i fod yn syrfewyr y gwaith y mae angen ei wneud ar y priffyrrd yn eu plwyfi sy’n arwain i unrhyw dref farchnad. Bydd pob person sy’n dal pob tir âr neu dir pori yn yr un plwyf, a phob person arall sy’n cadw aradr yno, yn canfod ac yn anfon bob dydd un drol gydag ychen, ceffylau, gwartheg a dau âr abl hefyd i atgyweirio’r priffyrrd yn y plwyf hwnnw.’

[O’r *First Statute of Highways*, Deddf a basiwyd yn y Senedd (1555)]

### Ffynhonnell B

‘I oroesi fel cymunedau trefol roedd rhaid i drefi fod wedi eu lleoli’n dda mewn perthynas â chysylltiadau megis ffyrdd a medru elwa o fuddiannau masnach a’r wlad o’u hamgylch. Roedd Caerffili’n rhy agos at Gaerdydd a Chasnewydd i gynnal marchnad lewyrchus. Collodd rhai trefi bob ymholiadau (*pretensions*) trefol wrth i’w marchnadoedd fethu gan gwympo i gyflwr pentrefi amaethyddol.’

[Gwynfor Jones, hanesydd academaidd yn arbenigo ar hanes Cymru, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *Tudor Wales* (1988)]

Pa mor ddilys yw’r ddwy ffynhonnell hyn fel dystiolaeth i hanesydd sy’n dehongli newid a datblygiadau economaidd yn y cyfnod 1534-1567? [80]